Yr Adran
Ynni a Newid
Hinsawdd

# Taflen Wybodaeth
# Dyledion y Fargen Werdd

Rydych chi wedi cael hysbysiad ôl-ddyled gan eich cyflenwr trydan am eich bod chi ar ei hôl hi gyda'ch biliau trydan a'ch taliadau o dan y Fargen Werdd.

Er taw pethau ar wahân yw'r ddwy ddyled, mae angen eu talu gyda'i gilydd. Ni chewch ddewis talu eich dyledion o dan y Fargen Werdd a'ch dyledion trydan ar wahân.

## Peidiwch ag anwybyddu'r broblem.

- **Cysylltwch â'ch cyflenwr trydan.** Dywedwch wrthynt eich bod chi'n cael trafferth talu. Mae'n bosibl y bydd modd i chi drafod gwahanol ddewisiadau ar gyfer ad-dalu eich dyled, trwy sefydlu cynllun ad-dalu efallai.

- **Gofynnwch am gymorth a chyngor rhad ac am ddim** am eich hawliau a'r dewisiadau sydd ar gael i chi. Mae yna nifer o sefydliadau sy'n gallu'ch helpu chi – mae'r manylion dros y ddalen. Gall ymgynghorydd dyledion eich helpu chi i gadw rheolaeth ar eich arian hefyd.

- **Meddyliwch yn ofalus cyn benthyg arian i ad-dalu dyledion.** Gofynnwch am gyngor cyn benthyg yn erbyn eich cartref – efallai y byddwch chi'n talu mwy yn y tymor hir, a gallech fod mewn perygl o golli eich cartref.

- **Efallai y bydd modd i chi ofyn i'r llys am ragor o amser i ad-dalu'r ddyled** – ond dim ond o dan amgylchiadau penodol. Siaradwch ag ymgynghorydd dyledion cyn ystyried mynd i'r llys. Cadwch gopïau o lythyrau a negeseuon e-bost rhag ofn bod angen y rhain ar y llys.

- **Gallai gwneud dim wneud pethau'n waeth:**

  Gallai eich cyflenwr trydan fynnu eich bod chi'n gosod mesurydd rhagdalu, neu o dan amgylchiadau penodol, gallai ddatgysylltu eich cyflenwad trydan.

  Gallai colli taliadau effeithio ar eich statws credyd a'i gwneud hi'n anodd i chi gael credyd yn y dyfodol.

**Trowch y ddalen am fanylion ble i droi am gymorth a chyngor.**

# Cymorth a chyngor

**Gallwch gysylltu â'r sefydliadau dielw canlynol i gael cyngor diduedd a chyfrinachol am ddim, neu i gael manylion ble i droi am gyngor o'r fath yn eich ardal chi.**

### Cyngor ar Bopeth

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyledion a phethau eraill, galwch heibio i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol (mae'r cyfeiriad yn y llyfr ffôn) neu ewch i **www.adviceguide.org.uk**

### Y Llinell Ddyled Genedlaethol

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyledion (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban), ffoniwch **0808 808 4000** neu ewch i **www.nationaldebtline.co.uk**

### Cyngor Ariannol yr Alban

Os ydych chi'n byw yn yr **Alban**, ffoniwch **0141 572 0237** neu ewch i **www.moneyadvicescotland.org.uk** i gael manylion cyswllt cyrff sy'n gallu cynnig cyngor ar ddyledion yn eich ardal leol.

### Elusen Ddyledion StepChange

I gael cyngor am ddyledion ledled y DU, ffoniwch **0800 138 1111** neu ewch i **www.stepchange.org**

### Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

For I gael cymorth, gwybodaeth a chyngor diduedd a hwylus rhad ac am ddim, ewch i **www.moneyadviceservice.org.uk** neu ffoniwch **0300 500 5000** i gael sgwrs ag Ymgynghorydd Ariannol.

### AdviceUK

Mae'r canolfannau sy'n aelodau o'r sefydliad hwn yn cynnig cyngor ar ddyledion, gan gynnwys cyngor arbenigol ar gyfer cymunedau lleiafrifol a phobl ag anableddau. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch **0300 777 0107**

## Cyrff defnyddiol eraill

### Cyngor Cyfreithiol Sifil

Gallech gael cymorth cyfreithiol os yw eich cartref mewn perygl. Ewch i **www.gov.uk/legal-aid** neu ffoniwch **0845 345 4 345**

### Gwasanaethau'r Ombwdsmon

Os oes cwyn gennych na allwch ei datrys gyda'ch cyflenwr trydan, efallai y bydd Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ynni'n gallu helpu – ffoniwch **0330 440 1624** neu ewch i **www.ombudsman-services.org**

Fel arall, efallai y gallech gysylltu â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol – ffoniwch **0800 023 4567** neu **0300 123 9123** neu ewch i **www.financial-ombudsman.org.uk**

#### Y Gwasanaeth Cynghori ar Arbed Ynni

I gael gwybodaeth gyffredinol am y Fargen Werdd, ond nid cyngor ar ddyledion, ffoniwch **0300 123 1234** (yng Nghymru a Lloegr) neu **0800 512 012** (yn yr Alban) neu ewch i **www.gov.uk/greendeal**

Paratowyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
URN 13D/147
Argraffiad 6/13
© Hawlfraint y Goron 2013